

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 20 Gorffennaf, 2021

Present: Y Cynghorydd Peter Rogers(Cadeirydd), Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd), Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts.

Wrth law: Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 3), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Richard Griffiths, Mrs Annwen Morgan, (Prif Weithredwr), Mr Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Arweinydd Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Prif Archwilydd Mewnol (NW), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(2:00 yp tan 3:45 yp)

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
DECISION	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	3 Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2020/21 Adroddiad gan y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
DECISION	Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2020/21 a chymeradwyo'r argymhelliad ynddo y dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan gydnabod hefyd, oherwydd sefyllfa barhaus Covid 19, y gallai'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gael eu gohirio neu eu disodli gan gamau gweithredu mwy brys i fynd i'r afael â risg Covid 19.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	4 Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr
--------------------------------	--

	Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
DECISION	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi y bydd y ffigurau alldro yn adroddiad rheoli blynyddol y trysorlys ar gyfer 2020/21 yn parhau'n rhai dros dro nes i'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 gael ei gwblhau a'i gymeradwyo; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2020/21 yn yr adroddiad hwn. Derbyn adroddiad rheoli blynyddol y trysorlys ar gyfer 2020/21 ac anfon yr adroddiad ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb sylwadau pellach.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	5 Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2020/21 Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
DECISION	<p>Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a chynnig sylwadau arni, penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2020/21 a nodi ei gynnwys.</p> <p>NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL</p>

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	6 Diweddariad ar Strategaeth a Blaenoriaethau Archwilio Mewnol 2021/22 Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
DECISION	<p>Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi darpariaeth sicrwydd yr Archwiliad Mewnol yn y dyfodol.</p> <p>NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL</p>

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	7 Archwilio Allanol: Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - CSYM Adroddiad gan Archwilio Allanol
DECISION	Penderfynwyd derbyn a nodi Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - CSYM.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	8 Blaen Raglen Waith wedi'i Diweddaru Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
DECISION	Penderfynwyd nodi'r mân ddiwygiadau i'r Blaen Raglen Waith a gymeradwywyd ar gyfer 2021/22.